# Grŵp Cydweithredol Cymru Dros Atal Trais

*Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd (ORV)*

Rhan 1: Pwrpas y ddogfen



GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services

Grŵp Cydweithredol Cymru dros atal Trais
Anti-Violence Collaborative Wales

## ORV RHAN UN
## Pwrpas y ddogfen

I gael arweiniad llawn, cyfeiriwch at gytundeb 'Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd' (ORV) Grŵp Cydweithredol Cymru Dros Atal Trais (AVC).


| | | |
|---|---|---|
| **1.1** | Bwriad a Phwrpas | **T.3** |
| **1.2** | Proses wedi'i symleiddio | **T.5** |
| **1.3** | Gweithredu, Cyhoeddusrwydd, Adolygu | **T.6** |
| **1.4** | Dyddiad Dechrau | **T.6** |
| **1.5** | Cyfathrebu a Phwynt Cyswllt Sengl ar gyfer y GIG, CPS Cymru-Wales a'r Heddlu | **T.6** |
| **1.6** | Cyswllt | **T.7** |
| **1.7** | Uwchgyfeirio | **T.7** |
| **1.8** | Adroddiad Blynyddol | **T.7** |
| **1.9** | Llofnodwyr | **T.8** |


Sganiwch y cod QR hwn gyda'ch dyfais symudol i ddysgu mwy am Grŵp Cydweithredol Cymru Dros Atal Trais

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru
Shared Services Partnership
Welsh Risk Pool Services

Grŵp Cydweithredol Cymru dros atal Trais
Anti-Violence Collaborative Wales

## 1.1 Bwriad a Phwrpas

### (i) Datganiad o Fwriad

Cydnabyddir yn eang bod staff y GIG (Ysbytai, Ambiwlans, Cymunedol, a Gofal Sylfaenol gan gynnwys Deintyddiaeth ac Optometreg ynghyd â staff y sector cyhoeddus sy'n cyflawni dyletswyddau gofalu) ymhlith y rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu trais ac ymddygiad ymosodol yn ystod eu cyflogaeth.

Mae holl sefydliadau'r GIG yn cydnabod eu dyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel a sicr i'r holl staff, defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr. O fewn eu rhwymedigaethau iechyd a diogelwch ac uchelgais strategol Cymru Iachach mae'r GIG yn ceisio dod yn gyflogwr enghreifftiol o ran iechyd a llesiant ei weithlu. Mae gan sefydliadau'r GIG bolisïau trais ac ymddygiad ymosodol lleol sy'n amlinellu'r dull y cytunwyd arno i atal ac ymateb i achosion o'r fath tuag at eu gweithlu.

Mae diddordeb cyhoeddus cryf mewn erlyn y rhai sy'n ymosod yn eiriol ac yn gorfforol ar staff sy'n gweithio i'r GIG.

Bydd pob parti i'r cytundeb hwn yn cydweithio i sicrhau'r canlyniad mwyaf priodol ym mhob achos.

- Mae'r Grŵp Cydweithredol dros Atal Trais (AVC) yn cefnogi partneriaid i gydymffurfio â chyfarwyddyd Cylchlythyr Iechyd Cymru 2024.
- Mae gan gyrff GIG Cymru gyfrifoldeb i nodi ac ymateb i achosion treisgar a digwyddiadau ymosodol er mwyn i'r cytundeb hwn fod yn effeithiol. Mae adrodd am ddigwyddiadau yn brydlon yn hanfodol i sicrhau'r canlyniad cywir.
- Mae strategaethau rheoli risg effeithiol yn hanfodol i leihau'r potensial ar gyfer trais ac ymddygiad ymosodol ac ymateb yn brydlon pan fydd digwyddiadau'n codi.
- Mae gan bartneriaid cyfiawnder troseddol gyfrifoldeb i adolygu ac ymateb yn briodol i adroddiadau am ddigwyddiadau gan gyrff y GIG.

### (ii) Diben
Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfrifoldebau'r partneriaid wrth ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â thrais neu ymddygiad ymosodol yn y GIG. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â throseddau rhywiol neu gasineb. Mae'n gwella'r cytundebau blaenorol yng Nghymru[1]

### (iii) Partïon
Mae'r Cytundeb ORV rhwng pedwar heddlu Cymru, CPS Cymru-Wales a GIG Cymru.

1 Mae'r ddogfen hon yn disodli cytundebau blaenorol: un a lofnodwyd ym mis Mawrth 2007 rhwng Llywodraeth Cymru a CPS Cymru-Wales, ail un ar 14 Medi 2009 rhwng Llywodraeth Cymru a Phrif Gwnstabliaid De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed Powys a Heddlu Gwent, a thrydydd cytundeb ar 21 Tachwedd 2018 rhwng Llywodraeth Cymru, Prif Gwnstabl De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed Powys, Heddlu Gwent a CPS Cymru-Wales.

Nod Cytundeb ORV yw:

- Cyflawni cyfathrebu effeithiol ac effeithlon ar draws partneriaid, gan gynnwys: cyfnewid gwybodaeth ar bob lefel.
- Darparu dealltwriaeth glir o'r rolau, cyfrifoldebau, prosesau a chyfyngiadau cyfreithiol priodol.
- Gwella dealltwriaeth a hyder holl staff y GIG mewn erlyniadau a'r system cyfiawnder troseddol.

**(iv) Cefnogaeth i Ddioddefwyr Trais ac Ymddygiad Ymosodol**
Dylai staff y GIG ac eraill sy'n profi trais ac ymddygiad ymosodol a gwmpesir gan y cytundeb hwn gael cymorth effeithiol gan bartneriaid AVC. Mae hyn yn cynnwys yr holl staff sy'n gweithio yn y sector gofal iechyd amrywiol.

## 1.2 Proses wedi'i Symleiddio

**ATAL**

**Mae cyrff y GIG yn atal ymosodiadau trwy ddefnyddio gweithdrefnau rheoli risg effeithiol.**

**COFNODI**

**Ymosodiadau ar staff y GIG**
(Yn cynnwys staff Ambiwlans, Parafeddygon, staff Ysbyty, staff Gofal Sylfaenol h.y. staff Meddygon Teulu, Fferylliaeth, Podiatreg, Deintyddiaeth, Offthalmoleg).

**Adrodd am y digwyddiad i'r Rheolwr ac i'r heddlu drwy 999 neu 101.**

**Adroddiad digwyddiad (Datix Cymru) wedi ei gwblhau.**

**Rheolwr neu'r dioddefwr yn cysylltu â Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol y GIG neu staff cyfatebol.**

**YMCHWILIO**

**NHS Wales V&A Case Manager or equivalent staff**

- Yn cefnogi Rheolwr y GIG i ymchwiliio ddigwyddiadau Trais ac Ymddygiad Ymosodol.
- Cyswllt rhwng yr heddlu a'r sefydliad.

**Ymchwilydd yr Heddlu**

- Ymchwilio'n brydlon.
- Ystyried opsiynau cyfiawnder adferol a gorchmynion ymddygiad.
- Cyfeirio at y CPS lle bo'n briodol.

**ERLYN**

**CPS Cymru-Wales**
Ystyried a oes digon o dystiolaeth ar gyfer gobaith realistig o euogfarn a budd y cyhoedd i gychwyn erlyniad.

**Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru neu staff cyfatebol**
Hwyluso rhannu gwybodaeth, cefnogi dioddefwr drwy'r amser

**RHWYSTRO**

Corff GIG Cymru yn darparu **Datganiadau Effaith ar y Gwasanaeth** lle bo'n briodol.

**Canlyniad yr achos yn cael ei rannu gyda'r cyfryngau a'r cyhoedd.**

**Diweddaru'r Strategaeth Rheoli Risg i leihau risg trais ac ymddygiad ymosodol.**

## 1.3 Gweithredu, Cyhoeddusrwydd ac Adolygu

Mae'r partïon yn ymrwymo i weithredu'r cytundeb yn eang, a hyrwyddo'r cytundeb yn fewnol ac yn allanol. Bydd Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais (AVC) yn datblygu deunydd cyhoeddusrwydd i hyrwyddo'r cytundeb Ymatebion Gorfodol i Drais mewn Gofal Iechyd (ORV).

Dylai unrhyw ddiwygiadau gael eu cytuno'n ysgrifenedig gan y partïon a rhaid iddynt fod yn gyson â'r protocolau a'r safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Bydd y ORV yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan yr AVC.

## 1.4 Dyddiad Dechrau

Daw'r cytundeb hwn i rym ar **30 Mai 2024**.

## 1.5 Cyfathrebu

Mae cyfathrebu effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant y Cytundeb hwn er mwyn:

- Hyrwyddo adrodd am ddigwyddiadau Trais ac Ymddygiad Ymosodol.
- Cryfhau'r broses ymchwilio ac erlyn, trwy wella ansawdd a phrydlondeb gwybodaeth a rennir.
- Sicrhau y darperir gofal effeithiol i ddioddefwyr a thystion.
- Gwella hyder yn y sector cyfiawnder troseddol.
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn ogystal â'r camau a fydd yn cael eu cymryd gan bob parti.

Mae partneriaid Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais (AVC) yn cytuno y bydd unigolion o'u sefydliadau'n cael eu henwebu i weithredu fel pwynt cyswllt sengl (SPOC), i symleiddio cyfathrebu, gweithredu gweithredol, monitro ac adrodd ar y cytundeb.

**(i) Rheolwyr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru**
Mae pob corff iechyd yng Nghymru wedi nodi arweinydd gweithredol ar gyfer materion yn ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol. Mae gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol eu harweinwyr cyfatebol. Bydd cyrff y GIG yn sicrhau bod cyfrifoldebau Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru yn cael eu cyflawni gan staff priodol.

Mae cyfrifoldebau Rheolwr Achosion Trais ac Ymddygiad Ymosodol GIG Cymru yn cynnwys:

- Sicrhau amlygrwydd ar draws y sefydliad.
- Hyrwyddo adrodd am ddigwyddiadau drwy system Datix Cymru.
- Cefnogi a thywys y dioddefwyr trwy'r system cyfiawnder troseddol a'u helpu i ddod o hyd i gymorth llesiant sydd ar gael yn y GIG.
- Hyrwyddo'r cytundeb 'Ymatebion gorfodol i drais mewn gofal iechyd' (ORV) o fewn y sefydliad.
- Darparu adroddiadau a data i gefnogi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â thrais ac ymddygiad ymosodol a'r blaenoriaethau.
- Cysylltu â phartneriaid y cytundeb er mwyn creu llwybrau lleol effeithiol o gyfathrebu a dealltwriaeth.
- Cefnogi ymchwiliadau i ddigwyddiadau gyda golwg ar atal a lleihau trais ac ymd dygiad ymosodol.

- Darparu adroddiad chwarterol i Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais i'w adolygu a'i ystyried mewn cydweithrediad â CPS Cymru-Wales a'r Heddlu. Bydd hyn yn cynnwys nifer y digwyddiadau o drais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff y GIG o gymharu â nifer y cyfarfyddiadau â chleifion o fewn amgylcheddau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu, ynghyd â disgrifiad o'r data.

**(ii) Heddluoedd**
Bydd Prif Gwnstabliaid yn sicrhau bod pwynt cyswllt sengl (SPOC) yn cael ei ddynodi o fewn eu gwasanaeth. Bydd y SPOC yn sicrhau bod y cytundeb ORV yn cael ei weithredu o fewn ei sefydliad, ei fod yn hyrwyddo deunyddiau cyhoeddusrwydd, ac yn cysylltu â phartneriaid AVC.

**(iii) Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Cymru**
Bydd y CPS yn nodi ac yn cynnal pwyntiau cyswllt SPOC i gefnogi'r AVC.

## 1.6 Cyswllt

Mae'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i annog cyswllt lleol, rheolaidd i:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyhoeddusrwydd o'r cytundeb ORV.
- Sicrhau bod gwybodaeth a data perthnasol yn cael eu rhannu'n effeithiol.
- Cefnogi staff yr effeithir arnynt gan ddigwyddiadau trais ac ymddygiad ymosodol.

## 1.7 Uwchgyfeirio

Os bydd anghytundeb neu ymholiad mewn cysylltiad â rheoli achos, dylai Rheolwr Achosion GIG Cymru neu aelod o staff cyfatebol geisio datrysiad gyda'r SPOC perthnasol. Os na cheir datrysiad, dylid cysylltu ag aelod o Dîm Cenedlaethol Grŵp Cydweithredol Cymru dros Atal Trais (AVC) a fydd yn ceisio cefnogi datrysiad. Os na ellir dod o hyd i ddatrysiad dylid cyfeirio'r mater at Brif Swyddogion y sefydliadau perthnasol neu ei gyflwyno mewn cyfarfod AVC fel y bo'n briodol.

## 1.8 Adroddiad Blynyddol

Ar yr amod bod y cytundeb rhannu data angenrheidiol yn ei le, mae'r partïon yn ymrwymo i ddarparu data pan fydd ar gael, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ategol arall i sicrhau effeithiolrwydd y cydweithredu.

Mae gwaith yr AVC yn cael ei gomisiynu gan Bwyllgor Cronfa Risg Cymru a bydd adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu ar waith y grŵp cydweithredol.

Bydd yr AVC yn rhoi diweddariad blynyddol i Fforwm Partneriaeth Cymru.

Bydd yr AVC yn rhoi diweddariad blynyddol i Brif Weithredwr GIG Cymru.

## 1.9 Llofnodwyr y Cytundeb

Mae'r llofnodwyr yn cytuno i weithredu darpariaethau'r memorandwm hwn ac unrhyw drefniadau cyd-ddealltwriaeth.

..................................................................

**Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan**
**Dros ac ar ran Heddlu De Cymru**

..................................................................

**Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**Dros ac ar ran Heddlu Gogledd Cymru**

..................................................................

**Prif Gwnstabl Dr Richard Lewis**
**Dros ac ar ran Heddlu Dyfed-Powys**

..................................................................

**Prif Gwnstabl Pam Kelly QPM**
**Dros ac ar ran Heddlu Gwent**

..................................................................

**Jenny Hopkins**
**Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru**
**Dros ac ar ran Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru-Wales**

..................................................................

**Judith Paget**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru Dros ac ar ran GIG Cymru**

**Dyddiad: 30 Mai 2024**